# Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

# Ymateb i'ch galwad:
# Pregethwr Cynorthwyol Cydnabyddedig

Yn y gyfrol *Addolwch yr Arglwydd: Llyfr gwasanaeth ar gyfer Annibynwyr a Bedyddwyr*, nodir yn y rhagarweiniad mai 'Gwaith yr Eglwys yw addoli Duw ... Mae addoliad wrth galon y bywyd Cristnogol, yn fynegiant o'n cred a'n ffydd ac o'n hunaniaeth fel pobl Dduw. Addoliad a rydd hygrededd i'n cydgynulliad fel corff Crist ac yn yr addoliad, yn aml iawn, y mae'r Arglwydd yn siarad â'i bobl. Trwy weinidogaeth y Gair a'r Sacrament, trwy fawl a chyffes a gweddi, gwasanaethwn ninnau Dduw; ef sydd yn y canol ac ef ei hun yw canolbwynt y sylw'.

Ymgynull i gydaddoli ydi curiad calon yr eglwys, a braint y gweinidog, y pregethwr, neu'r arweinydd addoliad yw arwain y gynulleidfa.

## Cychwyn y daith

Bydd angen i unrhyw un sy'n dymuno ymgeisio am gydnabyddiaeth fel pregethwr cynorthwyol ddilyn y broses hon o gymeradwyaeth:

1. **Y cam cyntaf:** Y cam cyntaf yw hysbysu'r eglwys y mae'r ymgeisydd yn aelod ohoni eu bod yn teimlo arweiniad i gyflwyno eu hunain fel pregethwr cynorthwyol cydnabyddedig. Gellir gwneud hyn drwy siarad â gweinidog neu un o swyddogion neu ddiaconiaid yr eglwys. Yna, bydd gwahoddiad i chi arwain Oedfa. Yn dilyn hynny, bydd angen i'r eglwys, yn weddïgar, gymeradwyo'r unigolyn mewn cwrdd eglwys rheolaidd.

2. **Hysbysu:** Yn dilyn hyn, bydd ysgrifennydd yr eglwys, drwy lythyr, yn hysbysu ysgrifennydd y Cyfundeb. Yna, cyflwynir yr enw i gynhadledd y cwrdd chwarter perthnasol.

3. **Disgwyliadau er mwyn derbyn cymeradwyaeth Cyfundeb:** I dderbyn cymeradwyaeth Cyfundeb, disgwylir i'r ymgeisydd:

    a. **Bregethu** 'ar brawf' mewn tair eglwys o ddewis y Cyfundeb, a

    b. cael **cyfweliad** gan ddau aelod o'r cwrdd chwarter, gydag un ohonynt, pan fo'n bosib, yn weinidog ordeiniedig.

4. **Cyflwyno'r adroddiadau:** O dderbyn cymeradwyaeth cwrdd eglwys gan y tair eglwys (3a), a derbyn adroddiad cefnogol yn dilyn y cyfweliad (3b), cyflwynir adroddiad i gynhadledd y cwrdd chwarter. O dderbyn yr adroddiadau yn ffurfiol, cyflwynir yr ymgeisydd i ofal Adran Dysgu a Datblygu'r Undeb o dan oruchwyliaeth y Cyfarwyddwr Hyfforddi a Datblygu.

## Hyfforddiant

Bydd angen cwblhau **dau fodiwl llawn o Haen 2**, sef:

1. **Modiwl 1** – Addoli a Phregethu
2. **Modiwl 2** – Y Beibl

## Ar ôl cwblhau'r hyfforddiant

Gyda chymeradwyaeth y Cyfundeb a Phanel Dysgu a Datblygu'r Undeb, cyflwynir tystysgrif yr Undeb i'r ymgeiswyr yng nghyfarfodydd blynyddol yr Undeb, a bydd cofnod yn y Blwyddiadur eu bod yn bregethwyr cynorthwyol.